Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd – Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3140A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac mewn cysylltiad ag unrhyw drydydd parti, o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion 11

Diwylliant sefydliadol 15

Strwythurau a phrosesau llywodraethu 23

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd 26

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad 29

Atodiad 2 – canfyddiadau'r arolwg staff 48

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Dylai ansawdd fod yn 'ganolog' i bob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion o flaen popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael hefyd fod yn gostus o ran niwed, gwastraff, ac amrywiad. Mae angen i sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt fod â fframwaith llywodraethu cadarn ar waith i helpu i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal iechyd diogel, effeithiol, ac o ansawdd uchel. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro a phan fo angen, gwella safonau gofal.

2 Atgyfnerthwyd yr ymdrech i wella ansawdd mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol olynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd system gyfan, yn ogystal â chyflwyno dyletswydd gonestrwydd ar gyrff GIG, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan aiff pethau o'i le i alluogi dysgu. Mae'r Ddeddf yn dynodi bod ansawdd yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth.

3 Mae'n rhaid i ansawdd a diogelwch fod yn bresennol ym mhob agwedd ar gynllunio a darparu gwasanaethau a bod yn amlwg yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff GIG. Disgwylir i gyrff GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel bwrdd a thrwy wasanaethau, partneriaethau, a lleoliadau gofal yn eu cyfanrwydd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythurol ledled Cymru wedi cyfeirio at heriau amrywiol, gan gynnwys yr angen i wella llifau sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch, y trosolwg o archwilio clinigol, ac olrhain canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu pryderon uchel eu proffil hefyd ynghylch ansawdd gofal a dulliau llywodraethu cysylltiedig mewn cyrff GIG unigol.

4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol a bod cyrff GIG yn cynnal pwyslais digonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio presennol GIG Cymru yn adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu ansawdd yn cefnogi trosolwg sefydliadol da o'r niweidiau hyn yn rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

5 Archwiliodd ein harchwiliad a yw trefniadau llywodraethu sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. Fe wnaethom ganolbwyntio ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'n gwaith yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a wnaed

rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2021. I brofi'r safbwynt 'llawr i'r bwrdd', fe wnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer y Rhaglen Sgrinio Clyw Babanod.

# Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod **yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd. Mae'r trefniadau presennol yn effeithiol ond gellid eu cydgysylltu yn well i sicrhau cysondeb a rhannu dysg. Gallai gwybodaeth ddemograffig well yng nghofnodion meddygon teulu wella dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth o degwch ei gwasanaethau sgrinio yn sylweddol.**

7 Mae'n bwysig nodi ein bod wedi cynnal ein hadolygiad pan oedd yr Ymddiriedolaeth (ochr yn ochr â gweddill GIG Cymru) yn gweithredu ar sail Ymateb Uwch i Argyfwng a effeithiodd ar sawl rhaglen waith a oedd wedi cychwyn cyn y pandemig. Canfu ein Hasesiad Strwythuredig 2021 fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau trosolwg a monitro da i reoli risgiau strategol a gweithredol allweddol.

8 Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth a chynllun gweithredu i ddatblygu ei ddull o ymdrin ag ansawdd, diogelwch, a gwelliant. Mae'r Strategaeth wedi ei gogynnwys yn ddiweddar mewn Strategaeth 'Ansawdd fel Busnes' ehangach. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys gwaith i ddiffinio mesurau canlyniadau ar gyfer ei flaenoriaethau lefel uchel. Wrth iddi ddatblygu mesurau penodol, gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i gynnwys defnyddwyr yn y gwaith o adolygu ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Yn dibynnu ar yr wybodaeth y mae'n dymuno ei monitro, efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu ei chapasiti a'i gallu dadansoddeg data. Ceir blychau yn nhrefniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau uwch reolwyr bod risgiau gweithredu yn cael eu rheoli, yn bennaf oherwydd bod gwahanol rannau o'r busnes yn defnyddio gwahanol systemau rheoli risg.

9 O'n harsylwadau mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor, a'n cyfweliadau â staff, gwelsom ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol ac ymrwymiad eglur i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Nodwyd gennym hefyd enghreifftiau cadarnhaol unigol lle mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwrando ar adborth defnyddwyr ac wedi addasu ei gwasanaethau o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae diffyg rhywfaint o wybodaeth ddemograffig mewn cofnodion meddygon teulu yn cyfyngu dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth o niferoedd y bobl sy'n gymwys ar gyfer ei rhaglenni sgrinio oedolion a'r nifer sy'n manteisio o ran annhegwch ac anghydraddoldeb. O ganlyniad, ni all wybod a yw ei gweithgareddau ymgysylltu yn arwain at niferoedd uwch yn manteisio ar ei gwasanaethau o blith ei chynulleidfa darged i leihau annhegwch.

10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gweithredu ei Strategaeth Ansawdd a Gwelliant yn gofyn am ymrwymiad a buddsoddiad sylweddol a pharhaus. Fel y cyfryw, mae blwyddyn gyntaf y cynllun i weithredu'r Strategaeth yn cynnwys gweithgarwch llinell sylfaen i ddeall gofynion adnoddau'r presennol a'r dyfodol i

gyflawni uchelgeisiau'r Ymddiriedolaeth. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio adnoddau presennol yn wahanol.

11 Yn gyffredinol, mae strwythurau a phrosesau'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau diogel, effeithiol ac o ansawdd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei phrosesau yn cydgysylltu ar draws gwahanol is-adrannau ac yn ganolog. Trwy weithredu'r Strategaeth Ansawdd a Gwelliant, nod yr Ymddiriedolaeth yw cydgysylltu ei gwaith archwilio clinigol a gwella ansawdd yn well. Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r adnoddau staff sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau yn y Strategaeth, ac yn fwy eang yn y Strategaeth Ansawdd fel Busnes. Mae'n rhaid iddi sicrhau hefyd fod gan staff amser i gwblhau hyfforddiant statudol, gorfodol, a pherthnasol arall i gyflawni eu gwaith. Fel blaenoriaeth, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â thargedau o ran arfarniadau staff. Ceir lle i wella hefyd o ran rhai o reolaethau gweithredol yr Ymddiriedolaeth i roi sicrwydd bod polisïau newydd yn cael eu rhannu a'u defnyddio yn briodol. Mae'r angen i gyfeirio at y ffaith bod y rhain ar waith cyn COVID a newidiadau radical a phwyslais dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn golygu bod angen i ni fynd yn ôl er mwyn symud ymlaen.

12 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro perfformiad, ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau wedi'u hategu gan wybodaeth eglur ac amserol. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i wella llif yr wybodaeth i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant o'i his-grwpiau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i archwilio ffyrdd o wella ansawdd ac ehangder data perfformiad i ddeall a gwella gwasanaethau a rhoi sicrwydd o ansawdd a diogelwch defnyddwyr.

# Argymhellion

13 Nodir manylion yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**<br>A1 Mae gwendidau yn null yr Ymddiriedolaeth o gynnal, rhannu, ac ymateb i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfyngu ei gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n diwallu anghenion y boblogaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb trwy:<br>a. Sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau pan fo'n angenrheidiol.<br>b. Cytuno ar safonau ansawdd a phroses i asesu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn asesiadau ystyrlon â chamau priodol i liniaru effeithiau niweidiol.<br>c. Datblygu storfa ganolog i storio a rhannu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar draws y sefydliad.<br>d. Datblygu proses i fonitro gweithrediad camau lliniaru. |
| **Rheoli risg**<br>A2 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddarlun eglur o ba risgiau gweithredu sy'n bresennol mewn gwahanol rannau o'r busnes na sut y cânt eu rheoli. Mae staff mewn rhai meysydd yn defnyddio gwahanol feddalwedd rheoli risg ac mae adnoddau o dan bwysau. Mae'r Ymddiriedolaeth hanner ffordd trwy ddatblygu lefelau hyder ar gyfer y rheolaethau yn ei chofrestr risg strategol. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau rheoli risg trwy:<br>a. Flaenoriaethu gweithrediad ei Chynllun Datblygu Risg.<br>b. Parhau i ddatblygu systemau i sicrhau ansawdd rheolaethau yn y gofrestr risg strategol ac ystyried y fforwm gorau i rannu'r wybodaeth.<br>c. Sicrhau y defnyddir meddalwedd gyson i reoli risg ar draws y busnes.<br>d. Adolygu adnoddau ar gyfer rheoli risg gan gynnwys ehangder portffolio gwaith y Prif Swyddog Risg, a pha un a oes gan staff gweithredu amser neilltuedig ar gyfer rheoli risg. |

**Argymhellion**

**Archwilio clinigol**

A3 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth drosolwg canolog o ansawdd a chyfanrwydd ei rhaglen archwilio clinigol. Nid oes ganddi ddarlun eglur o ba mor dda mae'r rhaglen yn cysylltu â risgiau ansawdd a diogelwch, themâu allweddol sy'n deillio o'r rhaglen, na pha un a yw camau i roi sylw i argymhellion wedi eu rhoi ar waith. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau archwilio clinigol trwy:

a. Greu storfa ganolog i storio a rhannu pob archwiliad clinigol, naill ai yn yr hwb ansawdd neu yn rhywle arall.
b. Datblygu system i olrhain ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliadau clinigol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant.
c. Datblygu proses i gysylltu'r cynllun archwilio clinigol â chofrestrau risg gweithredu, corfforaethol, a strategol i ddangos bod archwiliadau wedi'u mapio ar sail risgiau ansawdd a diogelwch allweddol.
d. Crynhoi themâu sy'n deillio o'r rhaglen archwilio clinigol a rhannu â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. Dylai cynlluniau archwilio clinigol yn y dyfodol roi sicrwydd bod themâu yn cael eu hymchwilio.

**Arfarniadau a hyfforddiant staff**

A4 Mae cydymffurfedd ag arfarniadau staff wedi bod yn gyson islaw targed mewnol Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth ac mae wedi gwaethygu'n fwy yn ddiweddar. Yn yr un modd, mae cydymffurfedd o ran hyfforddiant islaw targed yr Ymddiriedolaeth, i raddau helaeth oherwydd anawsterau wrth ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau diogel. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydymffurfedd ag arfarniadau staff a bod hyfforddiant statudol a gorfodol yn bodloni'r targed cenedlaethol yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Argymhellion**

**Polisïau a gweithdrefnau**

A5 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwybod a oes gan ei chyfarwyddiaethau brosesau priodol ar gyfer diweddaru a rhannu polisïau, gweithdrefnau a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol nac i brofi cydymffurfedd â nhw. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei rheolaeth o bolisïau, gweithdrefnau, a dogfennau rheolaeth ysgrifenedig trwy:

a. Ddatblygu proses i ddiweddaru a rhannu polisïau a gweithdrefnau ar lefel cyfarwyddiaeth â staff.
b. Monitro ymwybyddiaeth staff o bolisïau a gweithdrefnau newydd neu wedi'u diweddaru.
c. Profi cydymffurfedd â pholisïau a gweithdrefnau newydd neu wedi'u diweddaru gan gynnwys Gweithdrefn Gweithio i Wella a pholisi Pryderon Cymru Gyfan.
d. Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant bod polisïau a gweithdrefnau newydd ac wedi'u diweddaru yn cael eu defnyddio gan staff.

**Adborth defnyddwyr gwasanaeth a staff**

A6 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn casglu gwybodaeth fel mater o drefn ac yn gyson am nodweddion gwarchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru)) ei defnyddwyr, neu bobl sy'n cymryd rhan mewn arolygon ymchwil. Nid yw'n rhannu dysgu gan staff ac adborth defnyddwyr yn gyson nac yn rhoi gwybod yn gyson i bobl pa newidiadau y mae wedi eu gwneud o ganlyniad i'w hadborth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi yn system CIVICA i wella ei dull o ymdrin ag adborth defnyddwyr. Yn ehangach, dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ymdrin ag adborth defnyddwyr a staff trwy:

a. Ddatblygu a gweithredu system CIVICA a dull cyson i gasglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig defnyddwyr gwasanaeth ac ymatebwyr i arolygon ymchwil.
b. Datblygu dull i gyfuno adborth gan staff, defnyddwyr gwasanaeth, cwynion, digwyddiadau, a chanmoliaeth i greu darlun mwy cadarn o ansawdd a diogelwch gwasanaethau.
c. Datblygu dulliau i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am yr effaith y mae eu hadborth wedi ei chael ar wella gwasanaethau.
d. Cynnwys adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn ymchwiliadau trwyadl i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant.
e. Datblygu dull o rannu gwersi o ymgysylltu â staff a defnyddwyr trwy weithredu'r strategaeth Ansawdd fel Busnes.

**Argymhellion**

**Is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant**

A7 Nid yw'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn cynnwys ei is-grwpiau. Ar hyn o bryd, mae is-grwpiau yn adrodd drwy eithriad gan leihau lefel y sicrwydd y gall y Pwyllgor ei gael bod yr is-grwpiau hyn yn gweithredu'n effeithiol. Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiwygio ei chylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant i gynnwys ei is-grwpiau a dulliau adrodd. Trwy wneud hynny, dylai sicrhau bod gan y Pwyllgor drosolwg o ehangder y deunyddiau a gwmpesir gan yr is-grwpiau a themâu neu faterion allweddol sy'n deillio o drafodaethau.

# Adroddiad manwl

## Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

14 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y ceir blaenoriaethau wedi'u diffinio yn eglur ar gyfer ansawdd a diogelwch a lliniaru'r risgiau i'w cyflawni yn effeithiol.

15 Canfuwyd gennym fod **yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i wella ei ddull o ymdrin ag ansawdd, diogelwch a gwelliant ac yn cydnabod y bydd angen adnoddau staff ychwanegol i gyflawni ei huchelgeisiau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rheoli risg da ond dylai sicrhau bod risgiau gweithredu yn cael eu hadrodd yn gyson ar draws y busnes i wella trosolwg canolog.**

### Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch

16 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth flaenoriaethau corfforaethol a gweithredu eglur ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau. Mae'n dymuno ymwreiddio ansawdd, diogelwch, a gwelliant yn well ar draws y sefydliad trwy ei Strategaeth Ansawdd fel Busnes a strategaethau galluogi eraill. Wrth iddi weithredu'r strategaeth, ceir cyfleoedd i'r Ymddiriedolaeth integreiddio yn well ei dull o gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb ac i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu dangosyddion ansawdd a diogelwch.**

17 Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ansawdd a Gwelliant 2021-30 y Bwrdd ym mis Mai 2021. Yn 2022, cafodd y Strategaeth ei gogynnwys mewn Strategaeth 'Ansawdd fel Busnes' ehangach. Yn ystod datblygiad y Strategaeth Ansawdd a Gwelliant, fe wnaeth Swyddogion a Chyfarwyddwyr Anweithredol asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn 'sylfaenol' o ran ei dull gan fod angen ymrwymiad a buddsoddiad cynyddrannol sylweddol arni i ddatblygu dull mwy aeddfed o ymdrin ag ansawdd a gwelliant. Cyflwynodd y Strategaeth flaenoriaethau lefel uchel ar gyfer ansawdd, diogelwch, a gwelliant mewn pedwar maes: dod yn sefydliad perfformiad uchel, cael ei ysgogi gan ansawdd a gwelliant, creu'r amodau i alluogi ansawdd a gwelliant, a bod yn sefydliad sy'n dysgu.

18 Roedd gan yr Ymddiriedolaeth gynllun tai blynedd i roi'r Strategaeth Ansawdd a Gwelliant ar waith â cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni. Canolbwyntiodd llawer o'r gwaith yn y flwyddyn gyntaf ar asesu adnoddau presennol i weithredu'r strategaeth a nodi bylchau o ran sgiliau a phersonél. Roedd y cynllun gweithredu hefyd yn cynnwys gwaith i bennu dangosyddion i fesur perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau yn y Strategaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn bwriadu cyflawni camau yn y cynllun a datblygu mesurau perfformiad yng nghyd-destun ehangach y Strategaeth Ansawdd fel Busnes.

19 Nod rhan bwysig o'r Strategaeth yw ymwreiddio ansawdd a gwelliant yn well ar draws busnes yr Ymddiriedolaeth. Mae'n nodi cysylltiadau â Chynllun Gweithredu,

Strategaeth Pobl, a model llywodraethu integredig[1] yr Ymddiriedolaeth. Mae'r flwyddyn weithredu gyntaf yn cynnwys gwaith i ddeall cysylltiadau posibl ar draws y busnes. Er enghraifft, mae'r tîm ansawdd wrthi'n cyfarfod â rhannau eraill o'r sefydliad i hyrwyddo manteision gwella ansawdd a deall sut y gallant integreiddio a chynorthwyo timau eraill. Mae model llywodraethu integredig yr Ymddiriedolaeth yn parhau i esblygu ochr yn ochr â gweithrediad y Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Ansawdd fel Busnes.

20 Wrth i'r Ymddiriedolaeth weithio i integreiddio ansawdd a gwelliant ar draws ei busnes, dylai ystyried sut i integreiddio yn well ei dull o gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb mewn cynllunio strategol (gweler **Argymhelliad 1**). Yn benodol, canfu ein gwaith wendidau yn null yr Ymddiriedolaeth o gynnal, rhannu, ac ymateb i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cyfyngu ei gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n diwallu anghenion pob rhan o'r boblogaeth. Canfuwyd gennym nad oes unrhyw broses nac adnodd staff i wirio a yw asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi eu cwblhau, nac i wirio ansawdd yr asesiadau eu hunain. Nid oes unrhyw storfa ganolog i storio a rhannu asesiadau a dim proses ar gyfer monitro a yw camau i liniaru effaith ar rannau o'r boblogaeth yn cael eu cymryd.

21 Mae rhai byrddau iechyd eraill[2] wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau i asesu'r effaith bosibl y gallai eu penderfyniadau ei chael ar ansawdd gwasanaethau trwy asesiadau o'r effaith ar ansawdd. Canfuwyd enghreifftiau cadarnhaol gennym o le gwnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid ei gwasanaethau neu eu hatal dros dro. Fodd bynnag, nid yw'n asesu fel mater o drefn nac yn gyson effaith bosibl ei phenderfyniadau ar ansawdd gwasanaethau. Yn y dyfodol, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried ffyrdd o asesu effaith bosibl ei phenderfyniadau ynglŷn â newid gwasanaethau fel y gall gynllunio yn effeithiol i liniaru effaith niweidiol bosibl.

22 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gynnwys ei staff yn natblygiad y Strategaeth Ansawdd a Gwelliant ond oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, ni wnaeth gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae dull ymgysylltu'r Ymddiriedolaeth: Ein Dull Ymgysylltu yn cynnwys gwaith i ddatblygu ei ddull o ymdrin â dysgu a gwella trwy adborth defnyddwyr. Wrth i'r Ymddiriedolaeth weithredu ei strategaeth Ansawdd fel Busnes a'i dull ymgysylltu, ceir cyfleoedd i ystyried sut i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu mesurau ansawdd, diogelwch, a gwelliant.

23 Mae gan y Rhaglen Clyw Babanod gynllun gweithredu a fframwaith atebolrwydd a oedd yn cyflwyno ei blaenoriaethau ansawdd a diogelwch penodol. Caiff y

[1] Mae llywodraethu integredig yn ymwneud â systemau, gweithdrefnau ac adrodd cydgysylltiedig i ymwreiddio llywodraethu da yn well ar draws sefydliadau. Mae ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig Cam Dau yn cynnig mwy o fanylion am fodel yr Ymddiriedolaeth.

[2] Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Bae Abertawe.

blaenoriaethau eu hadolygu yn flynyddol gan y grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol sy'n cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr cleifion o ofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, a'r trydydd sector. Newidiodd blaenoriaethau ac Adroddiadau Gweithgarwch Perfformiad Sgrinio ar gyfer y Rhaglen Clyw Babanod i adlewyrchu mesurau atal a rheoli heintiau a chau clinigau cymunedol dros dro rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020 mewn ymateb i COVID-19. O ganlyniad, cytunodd y Grŵp ar flaenoriaeth newydd ar gyfer y rhaglen i wneud gwaith dilynol gyda babanod na chawsant eu sgrinio gan fod clinigau ar gau. Yn fwyaf diweddar, adolygodd y Grŵp y blaenoriaethau ym mis Medi 2021. Yn ehangach, mae gan yr is-adran sgrinio flaenoriaethau cyflawni a gwella fel cynorthwyo dysgu a datblygu sy'n cael eu cytuno gan uwch dîm rheoli'r is-adran ac wedi'u teilwra ar gyfer pob rhaglen. Gweler **paragraffau 74 i 79** am ragor o wybodaeth am berfformiad monitro.

## Rheoli risg

24 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i nodi a rheoli risgiau gweithredol a chorfforaethol ond mae defnydd amrywiol o Datix yn cyfyngu trosolwg canolog o risgiau gweithredu ar draws y busnes.**

25 Diweddarwyd a chymeradwywyd Polisi Rheoli Risg yr Ymddiriedolaeth gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Mae'r polisi yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau lefel uchel a strwythurau ar gyfer rheoli risg. Mae cyfarwyddwyr gweithredol ac is-adrannol yn gyfrifol am adolygu eu cofrestrau risg a sicrhau bod cynlluniau lliniaru ar waith. Datix yw'r system rheoli risg a ddefnyddir ar draws yr is-adran sgrinio. Yn y rhaglen Clyw Babanod, mae'r holl staff yn cael eu hyfforddi i gofnodi risgiau clinigol ac anghlinigol ar Datix. Hyfforddir rheolwyr, is-reolwyr, a chydgysylltwyr rhaglen i lunio cofrestrau risg a rhedeg adroddiadau.

26 Trafodir risgiau i'r rhaglen Clyw Babanod fel eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd tîm ac yng nghyfarfodydd y Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol i gynnig golwg system ehangach ar risg. Caiff cofrestrau risg rhaglenni eu hadolygu yn fisol a'u huwchgyfeirio trwy adroddiadau risg i'r tîm rheoli is-adrannol os bydd tebygolrwydd neu effaith y risg yn cynyddu y tu hwnt i oddefiant targed. Rhannwyd wyth o adroddiadau risg â'r rheolwyr is-adrannol yn y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd enghreifftiau gennym yn y rhaglen lle nodwyd risgiau newydd ac y rhoddwyd rheolaethau priodol ar waith. Er enghraifft, diweddarwyd cofrestr risg y rhaglen i adlewyrchu'r ffaith bod clinigau ar gau dros dro (gweler **paragraff 21**).

27 Canfu ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig Cam 2 2021 fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i nodi, rheoli ac adrodd risgiau trwy ei chofrestrau risg corfforaethol a strategol. Canfu ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd fod gan y Rhaglen Clyw Babanod drefniadau da i nodi, monitro ac uwchgyfeirio risgiau. Fodd bynnag, ceir bwlch o ran sicrwydd gan nad oes gan y Prif Swyddog Risg a'r tîm Gweithredol ddarlun eglur o ba risgiau gweithredu sy'n bresennol mewn gwahanol rannau o'r busnes na sut y maent yn cael eu rheoli, yn

bennaf gan nad yw'r holl staff yn defnyddio Datix (gweler **Argymhelliad 2**)[3]. Rydym wedi clywed bod staff o'r farn bod Datix yn anodd ei ddefnyddio ac yn defnyddio cymysgedd o Microsoft Word ac Excel sy'n golygu nad yw gwybodaeth am risg ar gael mewn un lle ar gyfer trosolwg uwch reolwyr. Nod y Prif Swyddog Risg a'r tîm ar hyn o bryd yw rheoli'r blwch o ran sicrwydd trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr perthnasol i adolygu risgiau gweithredu. Nod yr Ymddiriedolaeth yw cryfhau ei throsolwg o reoli risg trwy weithredu ei Chynllun Datblygu Risg (gweler **paragraff 27**).

28 Disgrifiodd adolygiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth o'i systemau rheoli risg yn 2021 ddiffyg un system rheoli risg gyson ar draws y sefydliad fel her. Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at adnoddau cyfyngedig i reoli risg. Yn benodol, mae gan y Prif Swyddog Risg bortffolio mawr o waith gan gynnwys llywodraethu gwybodaeth. Mae mwy o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y pandemig ac asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data wedi cynyddu'r llwyth gwaith ymhellach. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei gofynion gweithlu llywodraethu gwybodaeth i ddeall a oes angen iddi fuddsoddi mewn staff ychwanegol. Clywsom hefyd er bod llawer o staff wedi'u hyfforddi i reoli risg, eu bod yn rhy brysur o ganlyniad i bwysau parhaus yn ymateb i'r pandemig ac adfer gwasanaethau. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Datblygu Risg ym mis Chwefror 2022 i wella ei dull o reoli risg.

29 Mae cofrestr risg strategol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys risg benodol ar ansawdd a diogelwch ac effeithiolrwydd ei gwasanaethau[4]. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn adolygu yn rheolaidd reolaethau'r Ymddiriedolaeth i liniaru tebygolrwydd ac effaith bosibl y bydd risg dwy yn codi. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ychwanegu risg yn ymwneud â pharodrwydd i weithredu Dyletswydd Ansawdd y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

30 Yn 2019, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu ei chofrestr risg strategol ymhellach i ddynodi lefel yr hyder y gallai'r Bwrdd feddu arno yn y rheolaethau ar gyfer pob risg. Rhoddwyd saib ar y gwaith datblygu i ymateb i COVID-19 ond bydd yn ail-gychwyn yn rhan o'r Cynllun Datblygu Risg. Yn ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi dechrau ystyried pa lefel o wybodaeth sydd ei hangen i roi sicrwydd i'w bwrdd a'i phwyllgorau bod risg yn cael ei rheoli'n dda. Wrth iddi weithredu ei Chynllun Datblygu Risg ac ailwampio ei chofrestrau risg strategol a chorfforaethol, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y bydd yn asesu cryfder ei rheolaethau, a'r lle mwyaf priodol i rannu'r asesiad (gweler **Argymhelliad 2**). Mae archwilio clinigol yn rheolaeth allweddol, yn ffynhonnell o sicrwydd ac yn ffordd o

[3] Mae'r holl staff yn y Rhaglen Clyw Babanod a'r is-adran sgrinio ehangach yn defnyddio Datix.

[4] Newidiodd geiriad y risg yn ystod 2022 yn rhan o adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i risgiau strategol, ond mae'n cadw pwyslais ar ansawdd a diogelwch.

nodi risg, ond canfuwyd gwendidau gennym yn null yr Ymddiriedolaeth (gweler **paragraff 36**).

# Diwylliant sefydliadol

31 Dylai sefydliadau'r GIG fod yn canolbwyntio ar wella ansawdd gofal yn barhaus a defnyddio adnoddau cyfyngedig i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn hybu diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch, gan gynnwys gwella cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol, cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd sy'n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, gwrando ar adborth gan staff a chleifion a chymryd camau ar ei sail, a dysgu gwersi.

32 Canfuwyd gennym fod **yr Ymddiriedolaeth wedi cychwyn ar daith uchelgeisiol i ymwreiddio ansawdd a gwelliant ar draws ei gwasanaethau, ei rhaglenni a'i swyddogaethau. Yn y dyfodol, mae'n rhaid iddi sicrhau bod ganddi adnoddau staff, prosesau integredig ar gyfer archwilio clinigol a gwella ansawdd, a gwybodaeth ystyrlon am ddefnyddwyr gwasanaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth hefyd flaenoriaethu gwella cydymffurfedd o ran arfarniadau staff a hyfforddiant statudol a gorfodol a chodi proffil ei pholisi codi pryderon a'i pholisi Gweithio i Wella ymhlith staff.**

## Gwella ansawdd

33 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu adnoddau staff a chryfhau trefniadau llywodraethu clinigol yn rhan o'r Strategaeth Ansawdd fel Busnes. Mae wedi buddsoddi mewn swyddi penodol i gydgysylltu'r rhaglen archwilio Ansawdd a Chlinigol ond ar hyn o bryd ceir bylchau mewn sicrwydd yn y cynllun yn dangos sut y mae'n cael ei hysbysu gan risgiau allweddol i ddefnyddwyr a staff a pha un a yw argymhellion wedi eu rhoi ar waith.**

### Y dull o wella ansawdd

34 Mae gan yr Ymddiriedolaeth dîm ansawdd bach pwrpasol sy'n cynnwys un Cynghorydd Gwelliant hyfforddedig. Ar hyn o bryd, mae'n hyfforddi ail berson i gynorthwyo'r tîm ac mae wedi cwblhau gwybodaeth sylfaenol am adnoddau gwelliant yn ddiweddar i hysbysu ei benderfyniadau buddsoddi o ran adnoddau ychwanegol. Mae hefyd yn bwriadu cynyddu gallu staff presennol o ran dulliau a methodolegau gwella i gynorthwyo timau unigol.

35 Gwelliant Cymru yw un o'r Cyfarwyddiaethau yn yr Ymddiriedolaeth a bydd yn arwain gweithrediad y Strategaeth Ansawdd fel Busnes a'r dull sefydliadol o ymdrin â gwelliant. Bydd Gwelliant Cymru yn cynorthwyo datblygiad staff drwy'r addysg a'r hyfforddiant 'Gwelliant Ymarferol' a mynediad at y rhwydwaith Aur o hyfforddwyr gwelliant sydd ar gael trwy wefan Gwelliant Cymru pan fo'n briodol. Hefyd, mae tîm

Ansawdd yr Ymddiriedolaeth yn darparu rhywfaint o gymorth wedi'i deilwra i dimau o ran gwaith ansawdd a gwelliant y maent yn ceisio ei wneud. Fel mesurau canlyniadau, creu modelau rhesymeg, mapio prosesau ac ati, mae'r cymorth sydd ar gael wedi'i gyfyngu gan gapasiti yn y tîm. Adleolwyd staff o Gwelliant Cymru a'r tîm Ansawdd i gynorthwyo'r ymateb i COVID-19 tan fis Awst 2021 a wnaeth gyfyngu capasiti hefyd.

36 Nod y Strategaeth Ansawdd fel Busnes yw ymwreiddio ansawdd a gwelliant yn well yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau oherwydd ar hyn o bryd, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull strategol o gynllunio ei rhaglen welliant. Dewisir prosiectau ar sail ad hoc pan fo adnoddau yn caniatáu ac ni rennir gwersi yn eang. I gryfhau trefniadau ansawdd a llywodraethu clinigol, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu triongli data corfforaethol a pherfformiad gyda chwynion, pryderon, a digwyddiadau i ddarganfod meysydd lle mae angen gwella ac y gall gael effaith. Mae hefyd yn bwriadu sefydlu hwb Gwelliant i gynyddu gallu o ran gwelliant ar draws y sefydliad â mynediad at ganllawiau, offerynnau a dysgu o brosiectau gwelliant.

37 Nid oes gan yr is-adran sgrinio a'r rhaglenni ynddi arweinwyr gwelliant penodol sydd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r Ymddiriedolaeth, yn cyfyngu ar welliant ansawdd yn yr is-adran. Serch hynny, clywsom enghreifftiau o weithgarwch gwelliant yn seiliedig ar adborth defnyddwyr ac ymgysylltiad â'r boblogaeth ehangach (gweler **paragraff 48** ar brofiad defnyddwyr). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gallai fod bylchau yn ei chapasiti i gefnogi mentrau gwella ansawdd ac mae'n asesu ei rhan adnoddau o'r Strategaeth Ansawdd fel Busnes.

## Archwilio clinigol

38 Mae archwilio Ansawdd a Chlinigol yn ffordd bwysig o roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Yn y rhaglen Clyw Babanod, gwelsom enghreifftiau cadarnhaol lle nodwyd archwiliadau clinigol yn seiliedig ar risg ac y rhoddwyd argymhellion ar waith. Rhennir dysgu o archwilio clinigol ar draws tîm y rhaglen ac is-adran sgrinio mewn rhai achosion ond ni chânt eu rhannu yn gyson â'r sefydliad ehangach. Tan yn ddiweddar, nid oedd gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw adnodd canolog penodol ar gyfer archwilio ansawdd a chlinigol. Roedd timau unigol yn gyfrifol am nodi a chyflawni gweithgarwch archwilio ansawdd a chlinigol, ac yn dal i fod yn gyfrifol, ac mae'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio o Ansawdd a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gyfrifol am y dull sefydliadol o ymdrin ag archwilio ansawdd a chlinigol, cydgysylltu a datblygu'r cynlluniau archwilio ansawdd a chlinigol, ac adrodd ar gynnydd i'r tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant. Mae cynlluniau ar y gweill i gryfhau ein dull cyffredinol o archwilio Ansawdd a Chlinigol. Cafodd rhai archwiliadau clinigol eu hoedi yn ystod y pandemig, yn enwedig oherwydd adnoddau staff.

39 Ceir bylchau yn nhrosolwg canolog yr Ymddiriedolaeth ar archwilio ansawdd a chlinigol (gweler **Argymhelliad 3**). Mae'r rhan fwyaf o archwiliadau clinigol, ond nid pob un, wedi'u cynnwys yn y cynllun archwilio clinigol, ond nid oes gan yr

Ymddiriedolaeth ddarlun eglur o gyfanrwydd yr archwiliadau clinigol ar draws y sefydliad. Nid oes ganddi ddigon o wybodaeth yn y cynllun i ddangos bod y rhaglen archwilio yn seiliedig ar y risgiau allweddol i ddefnyddwyr a staff, na pha un a yw argymhellion wedi eu rhoi ar waith. Mae argymhellion archwiliadau clinigol yn y cynllun archwilio clinigol wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau cynnydd a blynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant ond mae'r wybodaeth mewn dolenni wedi'u mewnblannu ac nid yw'n hawdd ei darllen. Nid oes gan y Pwyllgor system ar gyfer olrhain cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu argymhellion archwiliadau clinigol. Hefyd, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth broses gyson. Ar hyn o bryd, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn casglu nac yn rhannu'r themâu sy'n deillio o archwiliadau clinigol ond mae'n archwilio ffyrdd o wneud hynny yn rhan o waith gwelliant ehangach ym maes archwilio ansawdd a chlinigol.

40 O fis Chwefror 2021, cyflogodd yr Ymddiriedolaeth swyddog penodol i gydgysylltu a chryfhau ei dull o archwilio ansawdd a chlinigol. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried a ddylid creu storfa ganolog o archwiliadau ansawdd a chlinigol i rannu gwersi ac arfer da. Mae gan greu storfa ganolog y potensial hefyd o wella trosolwg o'r rhaglen archwilio ansawdd a chlinigol. Bydd hefyd yn ceisio mynd i'r afael ag anghysondebau ym mhrosesau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau ansawdd ei rhaglen archwilio clinigol, ac i nodi meysydd ar gyfer gwaith archwilio dilynol.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

41 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ymwreiddio ei fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau ar draws ei busnes ond mae'n rhaid iddi wneud mwy i wella cydymffurfedd ar gyfer arfarniadau staff a hyfforddiant statudol a gorfodol.**

42 Yn rhan o'r adolygiad hwn a'n gwaith asesu strwythuredig, fe wnaethom arsylwi cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor a chyfweld â staff a Chyfarwyddwyr Anweithredol. Gwelsom ddiwylliant agored o ddysgu y gellir ei wella ymhellach trwy well integreiddio, yn enwedig trwy gysylltu dysg o adborth staff a defnyddwyr yn well a dull yr Ymddiriedolaeth o gyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb i weithgarwch gwelliant ar draws y sefydliad. Nod model llywodraethu integredig a Strategaeth Ansawdd a Gwelliant yr Ymddiriedolaeth yw gwella integreiddio a rhannu gwersi. Yn gadarnhaol, mae arolwg staff diweddaraf GIG Cymru[5] yn dangos mai prin iawn o staff yr Ymddiriedolaeth a ymatebodd i'r arolwg oedd wedi dioddef bwlio, aflonyddu, neu gamdriniaeth gan reolwr, cydweithiwr arall, neu aelod o'r cyhoedd dros y flwyddyn ddiwethaf (8%, 12%, ac 8% yn eu trefn).

[5] Cynhaliwyd arolwg staff GIG Cymru am dair wythnos ym mis Tachwedd 2020 ar yr un pryd â'r ail ymchwydd i drosglwyddiad COVID-19. 22% oedd y gyfradd ymateb i'r arolwg.

43 Datgelodd ein harolwg ddarlun cadarnhaol o ran y diwylliant ynghylch hysbysu am wallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a chodi pryderon[6]. Yn anffodus, mae'r ymateb isel i'n harolwg yn golygu ei fod yn annhebygol o fod yn gynrychiadol o'r Rhaglen Clyw babanod neu'n fwy eang. O'i gwaith ei hun, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod rhannau o'r sefydliad lle nad yw staff yn teimlo y gallant hysbysu am wallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, nac yn hyderus i wneud hynny. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella diwylliant sefydliadol ac i gynorthwyo staff i adrodd problemau yn rhan o'i Strategaeth Ansawdd fel Busnes.

44 Diweddarodd yr Ymddiriedolaeth ei fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau ddiwedd 2019 ac mae wrthi'n ymgorffori'r fframwaith yn ei phrosesau sefydliadol gan gynnwys recriwtio ac arfarnu staff. Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Pobl newydd ym mis Ionawr 2020. Mae gan y Strategaeth bwyslais cryf ar sicrhau bod diwylliant a gwerthoedd yn rhan allweddol o brofiad bywyd staff[7]. Mae'r Strategaeth yn cynnwys camau i fesur a monitro diwylliant sefydliadol, gan gynorthwyo staff a rheolwyr i ymwreiddio gwerthoedd sefydliadol a datblygu sefydliad sy'n seicolegol ddiogel lle mae pobl yn hyderus i godi syniadau a phryderon (gweler **paragraff 44** ar godi pryderon).

45 Wrth i'r Ymddiriedolaeth ddechrau ymwreiddio ei fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau, mae'n rhaid iddi wella cydymffurfedd o ran rheolwyr yn cwblhau arfarniadau blynyddol a diweddaru meddalwedd ESR (gweler **Argymhelliad 4**). Mae ansawdd a diogelwch gofal iechyd yn dibynnu ar y rhai sy'n ei ddarparu. Mae arfarniadau blynyddol yn rhan allweddol felly, o ddeall anghenion sgiliau, gwybodaeth a chymorth y gweithlu, ond nid yr unig ran. Ceir llawer o agweddau eraill ar ddull yr Ymddiriedolaeth o sicrhau bod gan ei staff y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd[8]. Nododd dau archwiliad mewnol broblemau o ran cydymffurfedd â phroses 'Fy Nghyfraniad' yr Ymddiriedolaeth. Ym mis Mai 2020, rhoddodd Archwiliad Mewnol sicrwydd cyfyngedig i broses arfarnu'r Ymddiriedolaeth pan oedd cydymffurfedd yn 73%. Rhoddodd yr adolygiad dilynol, ym mis Ionawr 2021, sicrwydd rhesymol i'r Ymddiriedolaeth a nododd rywfaint o welliant i'w ddull. Fodd bynnag, ar 61% ym mis Hydref 2021, mae cydymffurfedd wedi gwaethygu ac mae'n dal i fod yn is na tharged Llywodraeth Cymru (85%) a tharged mewnol yr Ymddiriedolaeth (90%). Mae cydymffurfedd yn is byth yn yr is-adran sgrinio lle mae 54% o staff wedi cael

[6] Fe wnaethom wahodd staff gweithredu sy'n gweithio ar draws y rhaglen clyw babanod i gymryd rhan yn ein harolwg agwedd ar-lein ynghylch trefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth hysbysebu'r arolwg ar ein rhan. 14% yw'r gyfradd ymateb amcangyfrifedig. Er bod y canfyddiadau yn annhebygol o fod yn gynrychiadol o safbwyntiau'r holl staff ar draws y rhaglen clyw babanod, rydym wedi eu defnyddio i dynnu sylw at broblemau penodol.

[7] Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r termau 'profiad byw' a 'seicolegol ddiogel' yn ei Strategaeth Ansawdd a Gwelliant.

[8] Yn cynnwys hyfforddiant, a sgyrsiau anffurfiol am ansawdd a diogelwch.

eu gwerthusiad yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae cydymffurfedd isel yn ystod y pandemig yn debygol o adlewyrchu penderfyniad yr Ymddiriedolaeth i flaenoriaethu cyswllt rheolaidd â'i staff i sicrhau llesiant dros gydymffurfedd ag arfarniadau ffurfiol.

46 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig i sicrhau diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaeth ac eto ar 87% ym mis Hydref 2021, nid yw cydymffurfedd hyfforddiant â chymwyseddau craidd yn bodloni targed yr Ymddiriedolaeth. Mae 85% o staff yn yr is-adran sgrinio wedi cwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd dau o'r saith aelod staff a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno yn gryf bod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol neu orfodol tra bod dau yn anghytuno neu'n anghytuno yn gryf[9]. Mae darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi bod yn arbennig o anodd yn ystod COVID-19 ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried darparu hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant grŵp bach sy'n bodloni gofynion rheolaethau atal heintiau pan fo'n bosibl. Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i archwilio ffyrdd o ddarparu hyfforddiant hanfodol i sicrhau cydymffurfedd â thargedau hyfforddiant cenedlaethol (gweler **Argymhelliad 4**).

47 Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am weithredu polisi Codi Pryderon (chwythu'r chwiban) Cymru Gyfan ac mae'n gweithio gyda'r tîm Pobl a Datblygiad Sefydliadol i benderfynu a yw pryderon yn gysylltiedig â pholisïau chwythu'r chwiban neu gwynion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwybodaeth ar ei mewnrwyd staff ynglŷn â sut i godi pryder ond nid yw'n hyrwyddo'r polisi yn weithredol na phwysigrwydd codi pryderon ymhlith staff. Dywedodd swyddogion wrthym na chodwyd unrhyw bryderon chwythu'r chwiban yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, ni all yr Ymddiriedolaeth fod yn siŵr bod y diffyg pryderon a adroddwyd yn golygu nad yw pryderon yn bodoli gan nad yw'n gwneud dim i ddeall ymwybyddiaeth o'r polisi a'r weithdrefn ymhlith ei staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n adolygu ei dull o ymdrin â pholisi Codi Pryderon Cymru Gyfan. Wrth iddi ddiweddaru'r dull, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i hyrwyddo'r polisi a sicrhau bod staff yn gwybod sut i adrodd pryder (gweler **Argymhelliad 5**).

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

48 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gasglu adborth staff a defnyddwyr yn yr is-adran sgrinio ond mae adnoddau canolog ar gyfer profiad defnyddwyr yn brin. Mae'n bwriadu defnyddio Civica i gasglu ac adrodd adborth defnyddwyr a rhannu gwersi yn fwy systematig. Hefyd, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wella'r wybodaeth ddemograffig mewn cofnodion meddygon teulu i'w helpu i**

[9] Roedd tri o aelodau staff ddim yn cytuno nac yn anghytuno bod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol.

**fesur faint o’r boblogaeth sy’n manteisio ar wasanaethau sgrinio. Mae adnoddau staff i ymchwilio i bryderon o dan bwysau.**

## Adborth defnyddwyr gwasanaeth

49 Yn rhan o’n gwaith, fe wnaethom holi’r is-adran sgrinio am y dulliau a ddefnyddir i geisio adborth gan ddefnyddwyr a staff a sut y rhannwyd y gwersi o’r adborth hwn. Mae’r is-adran yn casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth trwy arolygon a ffurflenni adborth ar ei gwefan. Mae Pennaeth Nyrsio’r is-adran yn cadeirio grŵp profiad defnyddwyr gwasanaeth yr is-adran lle trafodir adborth gwirioneddol ynghyd â’r dulliau ar gyfer ei gasglu. Ceir enghreifftiau unigol hefyd o’r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â defnyddwyr neu ddarparu defnyddwyr o wasanaethau sgrinio i wella neu reoli newidiadau i’w gwasanaethau. Cyn y pandemig, roedd y rhaglen Clyw Babanod yn casglu fideos o straeon defnyddwyr a rannwyd â staff a rhwydweithiau sgrinio perthnasol. Yn ehangach, mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithio i greu un system profiad defnyddwyr ar draws y sefydliad ac wedi buddsoddi yn ddiweddar mewn platfform digidol o’r enw Civica ac yn bwriadu dechrau ei ddefnyddio yn 2022. Yn y dyfodol, mae’r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd Civica yn ei gwneud yn haws i gofnodi a dadansoddi adborth defnyddwyr, gan gynnwys cynhyrchu fideos.

50 Ar hyn o bryd, mae gan yr Ymddiriedolaeth un swydd gorfforaethol sydd wedi’i neilltuo i brofiad defnyddwyr: y Rheolwr Ymgysylltu a Chydweithredu. Bu adnoddau canolog ar gyfer profiad defnyddwyr o dan bwysau gan y bu’r Rheolwr yn cynorthwyo ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19.

51 Mae gan yr is-adran sgrinio dîm ymgysylltu pwrpasol sy’n gweithio gyda chymunedau a grwpiau penodol i ddeall rhwystrau i gyfranogiad yn ei rhaglenni a mynd i’r afael â nhw. Er enghraifft, mae’r tîm yn parhau i weithio gyda phobl drawsryweddol ac anneuaidd i wella rhaglenni sgrinio’r fron a serfigol. Mae’r tîm hefyd wedi arwain ‘ymarferion’ gyda grwpiau penodol i ddeall profiad defnyddwyr â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 o’i glinigau sydd wedi arwain at welliannau fel taflenni newydd i’w gwneud yn fwy hygyrch. Hefyd, mae gan yr is-adran sgrinio gyfeiriad e-bost penodol ar gyfer adborth defnyddwyr sy’n cael ei gopïo i gyfarwyddwr yr is-adran gan roi trosolwg o adborth ac amseroedd ymateb staff i uwch reolwyr. Efallai y bydd cyfleoedd i rannu dysg o waith timau ymgysylltu sgrinio yn well, gan gynnwys rhannu canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu a thechnegau i ymgysylltu’n effeithiol.

52 Caiff gwersi o weithgarwch ymgysylltu sgrinio eu rhannu o fewn yr is-adran a rhai rhwydweithiau sgrinio, ac weithiau â’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant ond nid yn gyson ar draws y sefydliad cyfan. Mae’r Pwyllgor hefyd yn cynnal ymchwiliadau trwyadl yn rheolaidd i gynnig gwybodaeth rhannu dysg ar sut mae rhaglenni sgrinio yn gweithio. Ni fu profiad defnyddwyr yn rhan o’r ymchwiliadau trwyadl yn ystod COVID-19. Ceir cyfleoedd i rannu dysg o ymgysylltu â staff a defnyddwyr yn well wrth i’r Ymddiriedolaeth ddatblygu ei hwb ansawdd. Pan fydd adnoddau a mesurau atal haint yn caniatáu, dylai’r Ymddiriedolaeth ail-gyflwyno

adborth defnyddwyr gwasanaeth i ymchwiliadau trwyadl ar gyfer ei phwyllgorau (gweler **Argymhelliad 6**). Nodwyd rhai enghreifftiau cadarnhaol gennym o le hysbyswyd defnyddwyr gwasanaeth am yr effaith yr oedd eu hadborth wedi ei chael – fel yr adran 'fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni' yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn cydnabod y gallai'r Ymddiriedolaeth fod yn well am 'gau'r bwlch' i roi gwybod i bobl sut mae'n gwrando ac yn ymateb i adborth (gweler **Argymhelliad 6**). Gallai'r Ymddiriedolaeth hefyd wella ei gwerthusiad o ansawdd ac effeithiolrwydd ei gweithgarwch ymgysylltu, yn enwedig ei effaith ar y niferoedd sy'n manteisio ar ei gwasanaethau.

53 Un rhan allweddol o ymgysylltu â defnyddwyr yw deall pwy sy'n defnyddio gwasanaethau a phwy nad ydynt yn eu defnyddio a pha un a yw profiadau defnyddwyr yn amrywio yn dibynnu ar hunaniaeth rhywedd, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol neu ba un a oes ganddynt anabledd neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Fodd bynnag, yn yr un modd â llawer o GIG Cymru, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn casglu gwybodaeth ar hyn o bryd i ddeall proffil demograffig ei defnyddwyr fesul y nodweddion gwarchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldebau (Cymru). O ganlyniad, ni all fesur cydraddoldeb mynediad at ei gwasanaethau, nodi gwahanol rannau o'r boblogaeth nad ydynt yn cymryd rhan yn ei rhaglenni, na mesur a yw ei hymdrechion i annog grwpiau penodol i gymryd rhan yn llwyddiannus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn poeni y gallai casglu gwybodaeth ddemograffig a allai fod yn sensitif yn uniongyrchol gan bobl sy'n dod i wasanaethau sgrinio berswadio pobl i beidio â defnyddio ei gwasanaethau. Hefyd, gan nad yw cofnodion meddygon teulu yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ddemograffig, ni all yr Ymddiriedolaeth nodi'n gywir nifer y bobl sy'n gymwys ar gyfer ei rhaglenni sgrinio. Mae Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus yr Ymddiriedolaeth yn archwilio ffyrdd o wella'r wybodaeth mewn cofnodion meddygon teulu gyda Llywodraeth Cymru.

54 Yn ehangach, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull cyson o gynnwys cwestiynau i ddeall nodweddion gwarchodedig ymatebwyr yn ei gweithgareddau ymchwil. Ceir cyfleoedd hefyd i'r Ymddiriedolaeth wella'r wybodaeth y mae'n ei chasglu am nodweddion gwarchodedig trwy arolygon defnyddwyr a'i rhaglen ymchwil (gweler **Argymhelliad 6**).

55 Cyn y pandemig, defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth grŵp profiad defnyddwyr gwasanaeth chwarterol i rannu arferion da a chynnig trosolwg o weithgarwch ar draws y sefydliad. Rhoddodd y grŵp y gorau i gyfarfod yn ystod COVID-19 ac nid yw wedi ail-gychwyn eto. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n sefydlu grŵp profiad a dysg i ddisodli'r grŵp profiad defnyddwyr. Bydd y grŵp newydd yn datblygu'r dull o ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth wedi'u hysbysu gan Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) 2020.

## Adborth o ddigwyddiadau, cwynion, a chanmoliaeth

56 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau i gofnodi digwyddiadau, cwynion a chanmoliaeth yn deillio o ddarparu ei gwasanaethau. Mae wrthi'n diweddaru ei

pholisi a'i gweithdrefn Gweithio i Wella i greu un polisi cyffredin â thair ffrwd ar wahân: cwynion, digwyddiadau, a gwneud iawn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dîm pryderon canolog sy'n darparu hyfforddiant a chymorth i staff ddefnyddio Datix i gofnodi digwyddiadau a chwynion. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cynnwys pum aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, buddsoddodd yr Ymddiriedolaeth mewn swydd arweiniol benodol newydd ar gyfer Gweithio i Wella a Phryderon.

Ar draws y sefydliad, mae 34 o aelodau staff wedi'u hyfforddi i ymchwilio i gwynion, 106 i ymchwilio i ddigwyddiadau a 38 i gynnal dadansoddiadau o wraidd y broblem. Fodd bynnag, mae gan lawer o staff ddyletswyddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19 ac adfer yn ei sgil, sy'n cyfyngu'r amser sydd ar gael iddynt i ymchwilio i bryderon. Ar yr un pryd, cynyddodd nifer y pryderon a adroddwyd yn ystod COVID-19, yn enwedig o ran gweithgarwch sgrinio a oedwyd. Mae llwyth gwaith cynyddol wedi lleihau gallu'r tîm pryderon i ddarparu hyfforddiant pryderon i staff ychwanegol. Rhennir dysg o gwynion â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn yr adroddiad Gweithio i Wella blynyddol a diweddariadau chwarterol. Ar gyfer ail chwarter 2021, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fodloni targedau cenedlaethol ar gyfer cydnabyddiaeth brydlon o gwynion ond methodd y targed amser ymateb o 30 diwrnod ar gyfer tri chŵyn yn ystod y cyfnod.

## Adborth gan staff

57 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â'r staff drwy arolwg staff GIG Cymru, arolygon pwls rheolaidd yn ystod y pandemig a phrosiectau penodol fel grwpiau ffocws staff yn 2021 i ddatblygu blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth. O fewn y tîm sgrinio, mae'r staff yn rhoi adborth anffurfiol yn ystod cyfarfodydd tîm, adolygiadau o ddigwyddiadau neu gwynion, ac yn ystod haf 2020 yn rhan o brosiect ffyrdd gwell o weithio. Rhennir adborth staff ag uwch dîm rheoli'r is-adran a rhwydweithiau sgrinio perthnasol. Mae cyfarwyddiaethau yn datblygu cynlluniau gweithredu i ddeall materion mewn arolygon staff a mynd i'r afael â nhw, a chaiff cynnydd ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl a Datblygiad Sefydliadol.

58 Roedd 85% o staff sgrinio a ymatebodd i arolwg staff GIG Cymru yn 2020 yn cytuno yn gryf neu'n cytuno y byddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas. Mae hyn yn cymharu'n sylweddol uwch nag ymateb staff ehangach yr Ymddiriedolaeth (68%). Fodd bynnag, dim ond 52% o staff sgrinio oedd yn cytuno yn gryf neu'n cytuno bod aelodau timau yn rhoi amser o'r neilltu i fyfyrio a dysgu. Roedd mwyafrif y staff a ymatebodd i'n harolwg (chwech allan o saith) yn cytuno neu'n cytuno yn gryf eu bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion yn eu maes gwaith.

# Strwythurau a phrosesau llywodraethu

59 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar lefel y bwrdd ac islaw yn cynorthwyo darpariaeth gwasanaethau diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel.

60 Canfuwyd gennym fod **strwythurau a phrosesau'r Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo llywodraethu effeithiol yn gyffredinol gyda chynlluniau ar gyfer gwelliant pellach. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi adnoddau staff digonol a bod staff yn cael eu hyfforddi'n briodol i gyflawni eu dyletswyddau.**

## Dyluniad sefydliadol i gynorthwyo llywodraethu effeithiol

61 **Mae dyluniad sefydliadol yr Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo llywodraethu da ac mae gan gynlluniau i greu Bwrdd Ansawdd a Gwelliant y potensial i wella cydgysylltiad a rhannu dysg ar draws y busnes. Gallai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i brofi cydymffurfedd â pholisïau newydd.**

62 Mae gan y Cyfarwyddwyr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio/y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol gyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a llywodraethu clinigol. Mae gan bob un gyfrifoldebau penodol dros ansawdd a diogelwch a nodir mewn cynlluniau dirprwyo a chadw pwerau. Ceir arweinwyr dynodedig ar gyfer ansawdd a diogelwch ar lefel is-adran a rhaglen ym maes Sgrinio a Microbioleg. Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithredu mewn polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus, rheolir atebolrwydd a llywodraethu ansawdd a diogelwch ar lefel is-adrannol a chyfarwyddiaeth. Mae gan yr is-adran microbioleg a diogelu iechyd grŵp ansawdd a diogelwch sy'n gyfrifol am oruchwylio perfformiad, ansawdd, a diogelwch. Mewn gwasanaethau sgrinio, mae gan bob rhaglen sgrinio fwrdd rhaglen neu/a bwrdd ansawdd.

63 Canfu ein hadolygiad o drefniadau yn y rhaglen Clyw Babanod fod llinellau da o atebolrwydd rhwng y rhaglen, yr is-adran sgrinio, y Tîm Gweithrediaeth Busnes, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen Clyw Babanod yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol rannau o'r rhwydwaith ar gyfer cynorthwyo rhieni a babanod drwy'r grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol. Mae'r grŵp yn monitro perfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth a blaenoriaethau ansawdd a diogelwch yn fisol trwy Adroddiadau Gweithgarwch Perfformiad Sgrinio. Caiff Adroddiadau Gweithgarwch Perfformiad Sgrinio eu hadolygu yng nghyfarfodydd ansawdd a diogelwch chwarterol y rhaglen, ac yng nghyfarfodydd rheolwyr yr is-adran sgrinio bob pythefnos. Mae'r holl benaethiaid rhaglen yn mynychu'r cyfarfodydd ac yn cyflwyno diweddariadau i'r tîm rheoli a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Sgrinio. Mae'r Cyfarwyddwr Sgrinio yn cyflwyno diweddariadau ar berfformiad, ansawdd, a diogelwch gwasanaethau i Dîm Gweithrediaeth Busnes yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant.

64 Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant bod ei pholisïau yn gyfredol trwy gofrestr polisïau. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd rheolaidd bod rhybuddion a hysbysiadau diogelwch cleifion yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy adroddiadau rhybuddion. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwybod a oes gan ei chyfarwyddiaethau brosesau priodol ar gyfer diweddaru a rhannu polisïau a ddiweddarwyd neu i brofi cydymffurfedd â nhw. Diwygiodd yr Ymddiriedolaeth ei pholisi ar gyfer polisïau, gweithdrefnau a dogfennaeth rheolaeth ysgrifenedig eraill ond rhoddodd saib ar waith cyfathrebu a phrofi cydymffurfedd â'r polisi oherwydd COVID-19. Mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth ddarparu sicrwydd bod ei staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau newydd ac yn cydymffurfio â nhw (gweler **Argymhelliad 5**).

65 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant hefyd yn derbyn sicrwydd blynyddol ynghylch cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â safonau Iechyd a Diogelwch. Yn 2021, nododd yr Ymddiriedolaeth feysydd i'w gwella yn ei dull o asesu cydymffurfedd â'r safonau, gan gynnwys integreiddio ei hasesiad â phrosesau gwella ansawdd ac archwilio clinigol.

66 Mae'r tîm pryderon yn cynnal adolygiadau ansawdd i asesu a yw ymchwiliadau i ddigwyddiadau yn cydymffurfio â gweithdrefn Gweithio i Wella yr Ymddiriedolaeth. Yn y dyfodol, hoffai'r tîm ymestyn ei adolygiadau ansawdd o gwmpasu'r broses gwynion (gweler **Argymhelliad 5**). Caiff ymatebion i gwynion eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth dan sylw ac yna gan y Prif Weithredwr ar gyfer cadarnhad terfynol. Mae'r broses gadarnhau yn darparu trosolwg Gweithredol a pherchnogaeth o gwynion.

67 O fewn y rhaglen Clyw Babanod, mae'r Rheolwr Sgrinio Babanod neu Gydgysylltydd y Rhaglen Glinigol yn ymchwilio i gwynion a digwyddiadau, yn dibynnu ar natur y pryder. Trafodir dysg o gwynion a digwyddiadau mewn cyfarfodydd rhaglen, cyfarfodydd uwch reolwyr is-adrannol ac mewn digwyddiadau hyfforddi perthnasol. Nodwyd enghreifftiau cadarnhaol gennym hefyd lle rhannwyd dysg o ddigwyddiadau â rhwydweithiau y tu hwnt i'r is-adran sgrinio, er nad yw hyn yn cael ei wneud fel mater o drefn (gweler **Argymhelliad 6**). Roedd yr holl staff a ymatebodd i'n harolwg naill ai'n cytuno neu'n cytuno yn gryf bod cyfathrebu rhwng staff ac uwch reolwyr yn effeithiol a bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff.

68 Mae dyluniad sefydliadol yr Ymddiriedolaeth yn esblygu wrth iddi weithredu'r Strategaeth Ansawdd a Gwelliant. Sefydlodd Fwrdd Ansawdd a Gwelliant traws-gyfarwyddiaeth yn ddiweddar i gytuno a goruchwylio rhaglen datblygu gwelliant flynyddol yr Ymddiriedolaeth. Cadeirir y Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae'n cyfarfod yn fisol a chynhaliodd ei gyfarfod agoriadol ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn datblygu cynlluniau ar gyfer hwb gwella ansawdd i rannu dysg a datblygu sgiliau gwelliant.

69 Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth rai newidiadau i'w strwythurau llywodraethu yn ystod y pandemig gan gynnwys defnyddio rhith-gyfarfodydd gweithredu, bwrdd a phwyllgor, a chyfarfodydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant mwy rheolaidd. Bydd yn parhau â'r cyfarfodydd pwyllgor amlach. Canfu'r rhaglen sgrinio Babanod fod presenoldeb mewn rhai cyfarfodydd wedi cynyddu oherwydd y rhith-fformat a bydd yn ystyried parhau â rhai rhith-gyfarfodydd yn y dyfodol.

## Adnoddau ac arbenigedd i gynorthwyo llywodraethu ansawdd

70 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu ei hadnoddau staff i gynorthwyo gwelliant ansawdd i hysbysu achos busnes dros fuddsoddi. Dylai'r Ymddiriedolaeth hefyd sicrhau bod gan staff amser i gwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol.**

71 Ar hyn o bryd, mae gan yr Ymddiriedolaeth adnodd canolog bach i gynorthwyo llywodraethu ansawdd[10]. Fodd bynnag, ceir arweinwyr dynodedig ar gyfer agweddau unigol ar lywodraethu ansawdd o fewn is-adrannau a thimau unigol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu hyfforddiant i gynorthwyo timau gweithredu gan gynnwys agweddau ar reoli risg a gweithio i wella. Fodd bynnag, mae capasiti staff i roi hyfforddiant ar waith yn gyfyngedig oherwydd gwaith COVID-19 neu adfer ychwanegol (gweler **paragraffau 25 a 47**). Mae'r pandemig wedi effeithio ar allu timau corfforaethol i gynorthwyo rhannau eraill o'r busnes. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod efallai fod ganddi fylchau mewn meysydd penodol ac mae wrthi'n asesu ei chapasiti o ran gwella ansawdd, ymgysylltu, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risg i hysbysu achosion busnes dros fwy o adnoddau staff.

72 Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar dîm Atal a Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaeth hefyd, oherwydd y gohiriwyd yr holl waith arferol i ganolbwyntio ar COVID-19. Fodd bynnag, mae'r arweinydd corfforaethol dros atal a rheoli heintiau yn parhau i gyfarfod â thimau gweithredu ar sail a arweinir gan anghenion ac fel mater o drefn, ac yn fwy rheolaidd os oes angen. Mae cynrychiolwyr o bob maes perthnasol o'r sefydliad yn mynychu'r grŵp Atal a Rheoli Heintiau corfforaethol bob tri mis sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol neu amlach i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant.

[10] Ceir pum gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn y tîm Pryderon, un gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ar gyfer profiad defnyddwyr, un gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ym maes archwilio clinigol, 1.5 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ym maes rheoli risg a dau weithiwr cyfwerth ag amser llawn yn y tîm gwella ansawdd. Mae gan yr Ymddiriedolaeth un gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ond mae'n darparu cymorth i'r GIG trwy ei dîm Heintiau Cysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd.

# Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

73 Ystyriodd ein gwaith a yw trefniadau monitro ac adrodd ar berfformiad ar lefel weithredol a strategol yn cynnig pwyslais digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

74 Canfuwyd gennym fod **gan yr Ymddiriedolaeth wybodaeth eglur ar gyfer craffu a sicrwydd a sylw da i ansawdd, diogelwch, a gwelliant ar lefel weithredu, corfforaethol a bwrdd.**

## Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

75 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth wybodaeth eglur am ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau ac mae'n parhau i chwilio am ffyrdd o wella ansawdd ac ehangder gwybodaeth i ddeall, gwella a sicrhau.**

76 Ar lefel gorfforaethol, mae gwybodaeth am ansawdd, diogelwch a pherfformiad gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth wedi'i chynnwys ar ei dangosfwrdd sicrwydd perfformiad rhyngweithiol a'i adroddiad ategol a dderbynnir gan y Tîm a'r Bwrdd Gweithrediaeth Busnes. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, cwynion a hawliadau ar draws y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi asesu bod ansawdd y data ei hun ar lefel 'efydd' ac mae'n bwriadu gwella ansawdd data wrth iddi weithredu System Rheoli Cwynion Unwaith i Gymru. Mae hefyd yn gweithio gyda defnyddwyr Datix i wella cydymffurfedd â gweithdrefnau cofnodi data sydd hefyd yn effeithio ar ansawdd data. Ym mis Tachwedd 2021, trafododd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant sut y gall ddefnyddio'r dangosfwrdd perfformiad mewn cyfarfodydd i wella craffu.

77 Tîm dadansoddeg gorfforaethol yr Ymddiriedolaeth sy'n cynhyrchu'r dangosfwrdd sicrwydd perfformiad. Mae swyddogion yng nghyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yr Ymddiriedolaeth yn dadansoddi data ansawdd a diogelwch ac yn archwilio ffyrdd o ddefnyddio'r data yn well i nodi tueddiadau a monitro cydymffurfedd.

78 Mae gwybodaeth am niferoedd y cwynion, y canmoliaethau a'r digwyddiadau a pherfformiad o ran targedau amser ymateb wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Gweithio i Wella blynyddol a diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. Cyn y pandemig, roedd y Pwyllgor hefyd yn derbyn gwybodaeth ac astudiaethau trwyadl rheolaidd o brofiad defnyddwyr, ond mae'r pwyslais ar brofiad defnyddwyr wedi amrywio yn ystod 2020 a 2021. Pan fydd pwysau COVID-19 yn cilio, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnwys pwyslais mwy cyson ar brofiad defnyddwyr, a fydd yn cynyddu'n raddol wrth i fanteision system Civica gael eu gwireddu. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhannu themâu sy'n deillio o gwynion yn rheolaidd yn ei hadroddiad perfformiad integredig i'r Bwrdd. Yn y dyfodol, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu triongli gwybodaeth Gweithio i Wella ag adborth defnyddwyr gwasanaeth a staff i gael darlun mwy cadarn o ansawdd a diogelwch (gweler **Argymhelliad 6**). Ceir cyfleoedd hefyd i rannu dysg o gwynion, canmoliaeth, a digwyddiadau ar sail fwy mater o drefn drwy'r hwb ansawdd.

79 Gwelsom swyddogion yn darparu adroddiadau a sylwadau llafar eglur i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. Mae aelodau'r Pwyllgor yn darparu craffu cynorthwyol a chadarn mewn cyfarfodydd. Cyn y pandemig, roedd Uned Fusnes y Bwrdd yn datblygu rhaglen flynyddol o ymweliadau safle i'r Pwyllgor. Roedd yr Uned yn bwriadu cynnal cyfarfodydd Pwyllgor ar wahanol safleoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi cyfle i aelodau'r Pwyllgor gyfarfod â staff rheng flaen a deall darpariaeth yn bersonol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor yn parhau i fynychu cyfarfodydd o bell tra bod rhai yn mynychu'n bersonol yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth. Trwy gydol COVID-19, mae Cadeirydd, Is-gadeirydd/Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, Prif Weithredwr a Swyddogion Gweithredol eraill yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal ymweliadau safle â gwahanol rannau o'r busnes.

80 Ar lefel weithredol, mae gan is-adrannau setiau data ar berfformiad, ansawdd a diogelwch sy'n cael eu monitro ar lefel is-adrannol a chyfarwyddiaeth. Mae'r is-adran sgrinio yn defnyddio Adroddiadau Gweithgarwch Perfformiad Sgrinio i fonitro pob rhaglen sgrinio.

## Sylw i faterion ansawdd a diogelwch cleifion

81 **Mae sylw i ansawdd a diogelwch cleifion yng ngrwpiau gweithredu a chorfforaethol yr Ymddiriedolaeth, ac yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn dda, ond dylai'r Ymddiriedolaeth dynhau strwythurau i'w his-grwpiau adrodd i'r Pwyllgor.**

82 Canfuwyd gennym fod y sylw i faterion ansawdd a diogelwch yn y rhaglen Clyw Babanod yn dda. Mae ansawdd a diogelwch yn eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y tîm rheoli babanod a'r rhain yw'r pwyslais penodol mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch chwarterol. Cynrychiolir y rhaglen yng ngrŵp ansawdd a diogelwch gweithredu'r Ymddiriedolaeth.

83 Mae gan Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yr Ymddiriedolaeth gylch gwaith eglur o ran trosolwg o ansawdd a diogelwch defnyddwyr. Mae gan agendâu'r Pwyllgor bwyslais cryf ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau, â gwybodaeth ddefnyddiol am feysydd busnes allweddol trwy ymchwiliadau trwyadl. Ers dyfodiad COVID-19, bu gan y Pwyllgor bwyslais eglur ar effaith anuniongyrchol COVID ar ei raglenni sgrinio, yn enwedig ar gyfer rhaglenni sgrinio a ohiriwyd yn ystod rhannau o 2020. Fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor wedi derbyn dogfennau a chyflwyniadau ar asesiad yr Ymddiriedolaeth i risg sy'n gysylltiedig â gohirio ei rhaglenni sgrinio. Ers hynny, mae wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i adfer ôl-groniadau sgrinio. Mae cadeirydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod sy'n cyflwyno meysydd gwaith allweddol a gwmpesir gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd. Yn ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau â'i rhaglen waith i ddeall ac adrodd y niweidiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

84 Adolygodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant ei gylch gorchwyl ym mis Chwefror 2021. Fodd bynnag, nid yw'r cylch gorchwyl yn nodi is-grwpiau'r pwyllgor na threfniadau i is-grwpiau adrodd i'r pwyllgor.

85 Adolygwyd y cylchoedd gorchwyl ar gyfer y grwpiau atal a rheoli heintiau a diogelu yn 2021. Mae'r ddau gylch gorchwyl yn esbonio bod yr is-grwpiau yn darparu cymorth i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant gan adrodd ar risgiau a phroblemau trwy eithriad. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad diogelu corfforaethol blynyddol ac adroddiad atal a rheoli heintiau blynyddol. Mae'r adroddiadau yn esbonio rheolaeth yr Ymddiriedolaeth o ddiogelu ac atal a rheoli heintiau a swyddogaeth yr is-grwpiau. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth reolaidd gan ei is-grwpiau i adrodd am eitemau a drafodir gan y grŵp. O ganlyniad, ni all y Pwyllgor sicrhau ei hun bod ei is-grwpiau yn effeithiol na pha un a oes bylchau o ran sicrwydd. Dylai'r Ymddiriedolaeth egluro'r strwythur a'r cysylltiadau rhwng ei his-grwpiau a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a gwelliant (gweler **Argymhelliad 7**). Yn y gorffennol, roedd gan y Pwyllgor is-grŵp profiad defnyddwyr hefyd, ond mae'r grŵp wedi ei ohirio trwy gydol COVID-19 gan ei fod wrthi'n cael ei ail-gyflwyno fel y Grŵp Profiad a Dysgu wedi'i ailwampio.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.** Mae gwendidau yn null yr Ymddiriedolaeth o gynnal, rhannu, ac ymateb i asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfyngu ei gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd sy'n diwallu anghenion y boblogaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb trwy: | Deallir pwysigrwydd a gwerth Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran cefnogi gwasanaethau o ansawdd sy'n diwallu anghenion poblogaeth Cymru. Mae hwn yn fater blaenoriaeth uchel ar hyn o bryd gan ein bod yn sylweddoli pwysigrwydd gwella'r trefniadau presennol i helpu'r sefydliad i ddiwallu anghenion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae gweithgor traws-sefydliadol wrthi'n adolygu'r dull ar gyfer cwblhau asesiadau effaith, gyda'r nod o integreiddio gwahanol asesiadau effaith a pharatoi'r sefydliad i ddatblygu offeryn digidol. Bydd yr offeryn hwn yn cynorthwyo staff i | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| a. Sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau pan fo'n angenrheidiol.<br>b. Cytuno ar safonau ansawdd a phroses i asesu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn asesiadau ystyrlon â chamau priodol i liniaru effeithiau niweidiol.<br>c. Datblygu storfa ganolog i storio a rhannu asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar draws y sefydliad.<br>d. Datblygu proses i fonitro gweithrediad camau lliniaru. | ymgysylltu â'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i chwblhau.<br><br>Ar hyn o bryd, prin yw'r adnoddau penodol i gynorthwyo staff yn y sefydliad i gwblhau'r rhain. Rydym yn cwmpasu gwell cymorth i staff sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau mewn ffordd ystyrlon a bod camau'n cael eu monitro a'u cwblhau. Bydd hyn yn ystyried yr argymhelliad i gadw storfa ganolog i storio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a gynlluniwyd eisoes yn rhan o weithrediad parhaus y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Hefyd, rydym yn lansio Rhwydwaith Ymgysylltu a Phrofiad ar gyfer cydweithwyr ar draws y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddylunio a darparu ein gwasanaethau, ein rhaglenni a'n swyddogaethau. Bydd cyfle yng nghynllun gwaith y rhwydwaith hwn i ddatblygu ymhellach gallu staff i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i safon uchel, gan gynnwys sicrhau bod llais y cyhoedd yn ganolog iddynt. | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | • Cwmpasu a chytuno ar yr ateb<br>• Gweithredu'r ateb y cytunwyd arno | Mawrth 2023<br>Mawrth 2023 | Tîm y Cyfarwyddwr Gweithredol |
| A2 **Rheoli Risg.** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddarlun eglur o ba risgiau gweithredu sy'n bresennol mewn gwahanol rannau o'r busnes na sut y cânt eu rheoli. Mae staff mewn rhai meysydd yn defnyddio gwahanol feddalwedd rheoli risg ac mae adnoddau o dan bwysau. Mae'r Ymddiriedolaeth hanner ffordd trwy ddatblygu lefelau hyder ar gyfer y rheolaethau yn ei chofrestr risg | Rydym wrthi'n cyflwyno blwyddyn gyntaf y cynllun Datblygu Rheoli Risg sy'n seiliedig ar y nod o gryfhau rheolaeth risg a sicrhau dull cyson o reoli risg ar draws y sefydliad ac o lefel y Bwrdd i lawr drwy'r Cyfarwyddiaethau a'r Is-adrannau. Mae camau penodol yn cynnwys:<br>• Parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig ar lefel Bwrdd yn erbyn blaenoriaethau sefydliadol fel y sail ar gyfer system gytûn ac wedi'i hymwreiddio o nodi parodrwydd i dderbyn risg ar draws yr Ymddiriedolaeth. | | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| strategol. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau rheoli risg trwy:<br>a. Flaenoriaethu gweithrediad ei Chynllun Datblygu Risg.<br>b. Parhau i ddatblygu systemau i sicrhau ansawdd rheolaethau yn y gofrestr risg strategol ac ystyried y fforwm gorau i rannu'r wybodaeth.<br>c. Sicrhau y defnyddir meddalwedd gyson i reoli risg ar draws y busnes.<br>d. Adolygu adnoddau ar gyfer rheoli risg gan gynnwys ehangder portffolio gwaith y Prif Swyddog Risg, a pha un a oes gan staff gweithredu amser neilltuedig ar gyfer rheoli risg. | • Rheoli risg wedi'i ymwreiddio fel eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd perthnasol ar draws y sefydliad.<br>• Amserlen a chyflwyniad diwygiedig a gwell o'r Cofrestrau Risg Corfforaethol a Strategol ar lefelau Gweithredol, Pwyllgor a Bwrdd.<br>• Sefydlu swyddogaeth y Tîm Arweinyddiaeth o ran Rheoli Risg Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth.<br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cynllunio i ymwreiddio rheoli risg yn y Dad ym mhob Cyfarwyddiaeth.<br><br>Wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg, bydd pwyslais hefyd ar ansawdd ac effeithiolrwydd rheolaethau yn y Gofrestr Risg Strategol, y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Cyfarwyddiaeth. Bydd y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Weithrediaeth Fusnes, y Pwyllgorau a'r Bwrdd a bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Cyfarwyddiaeth yn cael eu hadolygu gan y Tîm Arwain. | Mawrth 2023<br><br>Mawrth 2023 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i weithredu'r rhan fwyaf o System (Datix Cloud) Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru ond, yn yr un modd â gweddill GIG Cymru, mae'n aros am gyhoeddiad prawf y Modiwl Risgiau. Mae hwn wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2022 a disgwylir gweithrediad ym mis Ionawr 2023. Bydd cyflwyniad y modiwl Risgiau yn cynnwys hyfforddiant defnyddwyr ar gyfer system y disgwylir iddi fod yn fwy sythweledol ac yn haws ei defnyddio. Yn y cyfamser, bydd dadansoddiad anghenion hyfforddi i wella cysondeb y defnydd o'r Modiwl Risgiau Datix presennol yn cael ei gynnal.<br><br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthynol i Iechyd wrthi'n cwblhau rhaglen newid i addasu at ddibenion gwahanol, lle cynigir bod swyddogaeth y Prif Swyddog Risg yn cael ei rhannu yn 2 swydd: Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth a Phennaeth Rheoli Risg: | Tachwedd 2022 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | • swydd Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth – bydd yr adnodd yn cael ei nodi yn ystod 2022.<br>• Rheoli Risg – bydd adnodd risg strategol arbenigol dros dro yn cael ei nodi ar gyfer 2022/23.<br>• swydd Pennaeth Rheoli Risg – bydd buddsoddiad pellach yn cael ei geisio i gefnogi swydd newydd a fydd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Llywodraethu Integredig. | Awst 2022<br><br>Awst 2022<br><br>Mawrth 2023 | |
| A3 **Archwilio Clinigol**. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth drosolwg canolog o ansawdd a chyfanrwydd ei rhaglen archwilio clinigol. Nid oes ganddi ddarlun eglur o ba mor dda mae'r rhaglen yn cysylltu â risgiau ansawdd a diogelwch, themâu allweddol sy'n deillio o'r rhaglen, na pha un a yw camau i roi sylw i argymhellion wedi | Datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer sawl peth i'w gyflawni i wella'r rhaglen Ansawdd ac Archwilio Clinigol. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:<br><br>Hwyluso rhannu dysg o archwiliadau a gwblhawyd ar draws y sefydliad:<br>• Yn y cyfamser, bydd y fewnrwyd staff (SharePoint) yn cael ei defnyddio. | Awst 2022 | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| eu rhoi ar waith. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau archwilio clinigol trwy:<br>a. Greu storfa ganolog i storio a rhannu pob archwiliad clinigol, naill ai yn yr hwb ansawdd neu yn rhywle arall.<br>b. Datblygu system i olrhain ac adrodd ar gynnydd wrth weithredu argymhellion archwiliadau clinigol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant.<br>c. Datblygu proses i gysylltu'r cynllun archwilio clinigol â chofrestrau risg gweithredu, corfforaethol, a strategol i ddangos bod archwiliadau wedi'u | • Bydd ateb tymor hwy ar gyfer storfa ganolog yn cael ei gwmpasu. Mae Hwb Arloesi a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un opsiwn posibl ar gyfer hyn. Ar ôl cwmpasu'r opsiynau, bydd dadansoddiad ymarferoldeb yn cael ei gynnal i ddarganfod yr ateb gorau a symud ymlaen i'r cyfnod gweithredu.<br><br>Gwella'r trosolwg o weithrediad argymhellion archwilio trwy ddatblygu cofnod camau gweithredu canolog:<br>• Mae'r holl gamau ar gyfer archwiliadau clinigol 2021-22 wedi eu crynhoi mewn un templed cofnod camau gweithredu canolog.<br>• Darperir diweddariadau ar gynnydd y camau gweithredu hyn i'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn chwarterol. Yna, bydd y cynnydd hwn yn cael ei adrodd i'r Tîm Gweithrediaeth Busnes a'r Pwyllgor | Mawrth 2023<br><br>Mai 2022<br><br>Mawrth 2023 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| mapio ar sail risgiau ansawdd a diogelwch allweddol.<br>d. Crynhoi themâu sy'n deillio o'r rhaglen archwilio clinigol a rhannu â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. Dylai cynlluniau archwilio clinigol yn y dyfodol roi sicrwydd bod themâu yn cael eu hymchwilio. | Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn yr adroddiadau interim (6 mis) a diwedd blwyddyn.<br><br>Cyflwyno dull seiliedig ar risg o ymdrin â'r rhaglen archwilio ansawdd a chlinigol:<br>• Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu cychwynnol i benderfynu a yw archwiliadau yng nghynllun archwilio ansawdd a chlinigol 2022-23 yn gysylltiedig â chofrestrau risg. Y canfyddiadau oedd nad yw'r mwyafrif llethol.<br>• Cydnabyddir bod cyflawni'r amcan hwn wedi'u gysylltu'n gynhenid â darpariaeth y Cynllun Datblygu Rheoli Risg. Sefydlwyd gweithio matrics rhwng y Tîm Risg a'r Tîm Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithredu a bydd dull ar y cyd yn cael ei fabwysiadu i ymgysylltu â'r sefydliad i wella'r dull o reoli risg ac yn sgil hynny y cysylltiad rhwng risgiau, ac archwiliadau ansawdd a chlinigol. | Mai 2022<br><br>Mawrth 2023 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gwella'r trosolwg o ganfyddiadau o archwiliadau ansawdd a chlinigol, gan ddefnyddio hwn i gynhyrchu dadansoddiad thematig i hysbysu cynlluniau archwilio yn y dyfodol:<br>• Cynhyrchwyd dadansoddiad thematig cychwynnol ar gyfer yr adroddiad archwiliadau a gwblhawyd ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2021-22.<br>• Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithrediaeth Busnes a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant ym mis Gorffennaf 2022. Archwiliodd y dadansoddiad y themâu archwilio a oedd yn cael eu hymchwilio, yn ogystal â'r chwe maes gofal iechyd a Safonau Iechyd a Gofal y darparodd yr archwiliadau hyn sicrwydd yn eu herbyn. Bydd y dadansoddiad hwn hefyd yn cael ei gyflwyno yn y Grŵp Llywodraethu Clinigol Nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i gynllunio'r broses o ddosbarthu'r wybodaeth hon ynghyd â diweddariadau chwarterol (tra'n disgwyl i'r QOS fod ar waith) ar | Mai 2022<br><br>Gorffennaf 2022 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | gynnydd yr archwiliad ansawdd a chlinigol, i hysbysu rhannu sefydliadol ehangach.<br>• Cyflwyno, ym mis Ebrill 2022, dempled safonol ar gyfer adrodd canlyniadau archwilio ar gyfer holl archwiliadau ansawdd a chlinigol 2022-23 a fydd yn hwyluso ymhellach y broses o lunio dadansoddiad thematig yn y dyfodol. | Ebrill 2022 | |
| A4 **Arfarniadau a Hyfforddiant Staff**. Mae cydymffurfio ag arfarniadau staff wedi bod yn gyson islaw targed mewnol Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth ac mae wedi gwaethygu'n fwy yn ddiweddar. Yn yr un modd, mae cydymffurfio o ran hyfforddiant islaw targed yr Ymddiriedolaeth, i raddau helaeth oherwydd anawsterau wrth ddarparu | Bydd Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn:<br>• Parhau i adrodd ar gydymffurfedd yn fisol.<br>• Darparu data arfarnu unigol yn chwarterol i'r Tîm Gweithredol a Phartneriaid Busnes Pobl, gan ymestyn y grŵp derbyn hwn i gynnwys Arweinwyr Busnes a Thimau Arweinyddiaeth, i gynyddu cyfraddau cydymffurfedd.<br>• Cyfathrebu am y Broses Fy Nghyfraniad bresennol ac e-ddysgu Fy Nghyfraniad ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. | Blwyddyn o ddyddiad yr adroddiad. | Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn amgylcheddau diogel. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydymffurfedd ag arfarniadau staff a bod hyfforddiant statudol a gorfodol yn bodloni'r targed cenedlaethol yn ystod y flwyddyn nesaf. | Bydd cynnwys Dangosfyrddau Arfarnu yn y Dangosfyrddau Cyfarwyddiaeth ac Is-adrannol yn rhoi data amgen a mwy sythweledol i reolwyr a thimau arwain lleol.<br>Rhagwelir y bydd gweithredu'r Polisi Datblygiad Cyflog Cymru Gyfan diweddaraf yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cydymffurfedd a bydd sicrwydd ansawdd i sicrhau bod sgyrsiau ac arfarniadau yn dal i fod yn ystyrlon.<br>Bydd datblygu Fframwaith Ymddygiadol diwygiedig a Fframwaith Rheolaeth ac Arweinyddiaeth wedi'i ddiweddaru yn cefnogi'r pwyslais ar gyfrifoldebau rheoli trafodiadol a thrawsnewidiol o ran arfarniadau.<br>Rydym yn cynllunio gweithgarwch ymgysylltu i sicrhau bod adolygiad ac ail-ddyluniad proses Fy Nghyfraniad eleni yn sicrhau eglurder pwrpas ac yn ysgogi trafodaeth ystyrlon ac ymddygiad cadarnhaol ac yn cyd-fynd â gweledigaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru o weithlu hyblyg, medrus a brwdfrydig sy'n gallu darparu ein strategaeth hirdymor. Bydd yr adolygiad hwn yn cwmpasu dogfennau a | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | phrosesau/meddalwedd cofnodi cyn datblygiadau y DU gyfan i systemau pobl.<br>Mae cydymffurfedd â'r gyfres graidd o hyfforddiant statudol a gorfodol yn dal i fod rhyw fymryn uwchben targed Llywodraeth Cymru o 85% (ym mis Mehefin 2022). I ysgogi gwelliant, mae Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn cynnal dwy sesiwn galw heibio ESR y mis. Caiff y sesiynau eu cyfathrebu yn rheolaidd trwy SharePoint a chyfathrebu e-bost wythnosol a cheir presenoldeb da ynddynt.<br>Yn ystod 2021-22, ail-gyflwynwyd hyfforddiant personol ar gyfer Hyfforddiant Codi a Chario B a C, Dadebru ac Achosion Sydyn o Drais ac Ymosodedd. Rydym wrthi'n adolygu'r sefyllfa o ran hyfforddiant personol i ategu'r gyfres graidd o e-ddysgu.<br>Rydym yn ymwybodol o rai heriau adrodd drwy ESR sy'n effeithio ar ffigurau cydymffurfedd, mae hyn hefyd yn ymwneud â'r broses cynllunio swyddi ar gyfer y gweithlu meddygol. Mae gwaith ar y gweill i ystyried gwelliannau yn y maes hwn. | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A5 **Polisïau a gweithdrefnau**. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwybod a oes gan ei chyfarwyddiaethau brosesau priodol ar gyfer diweddaru a rhannu polisïau, gweithdrefnau a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol nac i brofi cydymffurfedd â nhw. Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei rheolaeth o bolisïau, gweithdrefnau, a dogfennau rheolaeth ysgrifenedig trwy:<br>a. Ddatblygu proses i ddiweddaru a rhannu polisïau a gweithdrefnau ar lefel cyfarwyddiaeth â staff.<br>b. Monitro ymwybyddiaeth staff o bolisïau a gweithdrefnau newydd neu wedi'u diweddaru. | Cytuno â'r argymhelliad, byddwn yn cymryd y camau canlynol:<br><br>1. Mae'r Weithdrefn Polisi, Gweithdrefnau a dogfennau Rheolaeth ysgrifenedig eraill wedi ei chryfhau i amlinellu yn fwy eglur:<br>• Y broses ar gyfer sut y bydd diweddariadau i Bolisïau a Gweithdrefnau Corfforaethol yn cael eu rhannu drwy'r cyfarwyddiaethau.<br>• Y gofyniad i Berchennog y Polisi brofi cydymffurfedd â gweithdrefnau newydd neu wedi'u diweddaru, ac ymwybyddiaeth staff ohonynt, ac adrodd i'r Pwyllgor perthnasol ar gyfer sicrwydd, pan fo'n briodol.<br><br>2. O ran y broses ar gyfer Gweithdrefnau Cyfarwyddiaeth Lleol, a SOPS, bydd canllawiau ar y trefniadau llywodraethu priodol o fewn Cyfarwyddiaethau yn cael | Gorffennaf 2022<br><br>Hydref 2022 | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| c. Profi cydymffurfedd â pholisïau a gweithdrefnau newydd neu wedi'u diweddaru gan gynnwys Gweithdrefn Gweithio i Wella a pholisi Pryderon Cymru Gyfan.<br>d. Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant bod polisïau a gweithdrefnau newydd ac wedi'u diweddaru yn cael eu defnyddio gan staff. | eu datblygu i sicrhau dull cyson o ddatblygu, rhannu, a phrofi cydymffurfedd Gweithdrefnau Lleol. Bydd hon yn cael ei datblygu ar y cyd â'r gwaith presennol sy'n cael ei wneud yn y maes hwn o fewn y Model Llywodraethu Integredig. | | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| A6 **Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth a Staff**. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn casglu gwybodaeth fel mater o drefn ac yn gyson am nodweddion gwarchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru)) ei defnyddwyr, neu bobl sy'n cymryd | Nod rhaglen Ein Dull Ymgysylltu Iechyd Cyhoeddus Cymru yw cynorthwyo'r sefydliad i adeiladu ar arferion da i ddatblygu sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae ganddi ran sylweddol yng ngweithrediad ein Strategaeth Ansawdd a Gwelliant a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. | | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| rhan mewn arolygon ymchwil. Nid yw'n rhannu dysgu gan staff ac adborth defnyddwyr yn gyson nac yn rhoi gwybod yn gyson i bobl pa newidiadau y mae wedi eu gwneud o ganlyniad i'w hadborth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi buddsoddi yn system CIVICA i wella ei dull o ymdrin ag adborth defnyddwyr. Yn ehangach, dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ymdrin ag adborth defnyddwyr a staff trwy:<br>a. Ddatblygu a gweithredu system CIVICA a dull cyson i gasglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig defnyddwyr | Rydym yn cytuno â'r argymhellion a byddwn yn cymryd y camau canlynol:<br>• Gweithredu'r system Profiad Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth (Civica).<br>• Darparu hyfforddiant i dimau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ddefnyddio system Civica i gasglu adborth gan eu defnyddwyr gwasanaeth a/neu randdeiliaid yn effeithlon, yn deg ac mewn ffordd gyson ar draws y sefydliad.<br>• Datblygu a gweithredu cwestiynau arolwg safonol a seiliedig ar dystiolaeth am nodweddion gwarchodedig.<br>• Recriwtio i swydd Arweinydd Ymgysylltu a Thystiolaeth newydd a fydd yn gyfrifol am gyfrannu at ddefnydd gwell o dystiolaeth bresennol yn ymwneud ag effeithiau ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys o amrywiaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys grwpiau trydydd sector a chymunedol. | Mehefin 2022<br>Mehefin 2022<br>Awst 2022<br>Hydref 2022 | Perthynol i Iechyd. |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| gwasanaeth ac ymatebwyr i arolygon ymchwil.<br>b. Datblygu dull i gyfuno adborth gan staff, defnyddwyr gwasanaeth, cwynion, digwyddiadau, a chanmoliaeth i greu darlun mwy cadarn o ansawdd a diogelwch gwasanaethau.<br>c. Datblygu dulliau i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am yr effaith y mae eu hadborth wedi ei chael ar wella gwasanaethau.<br>d. Cynnwys adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn ymchwiliadau trwyadl i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant. | • Datblygu a gweithredu Rhwydwaith Ymgysylltu a Phrofiad i gydweithwyr ar draws y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddylunio a darparu ein gwasanaethau, ein rhaglenni a'n swyddogaethau.<br>• Adolygu a chryfhau trefniadau llywodraethu sefydliadol presennol ar gyfer yr holl weithgarwch ymgysylltu ar draws y sefydliad, gan gryfhau llais y dinesydd a darparu cymorth i Dîm Arweinyddiaeth a Thîm Gweithrediaeth Busnes Iechyd Cyhoeddus Cymru i wella sicrwydd a llywodraethu o ran ymgysylltu cyhoeddus.<br>• Datblygu fframwaith sefydliadol ar gyfer ymgysylltu sy'n amlinellu sut y dylid ymwreiddio ymgysylltu yn ein strategaethau a'n prosesau allweddol gydag effaith a gwerth.<br>• Adolygu'r dulliau sicrwydd presennol ar gyfer Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth i sicrhau bod ein systemau yn darparu ar gyfer cryfhau llais y dinesydd a chrynhoi dysgu a gwelliannau yn unol â gofynion y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu. | Gorffennaf 2022<br><br>Medi 2022<br><br>Hydref 2022<br><br>Hydref 2022 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| e. Datblygu dull o rannu gwersi o ymgysylltu â staff a defnyddwyr trwy weithredu'r strategaeth Ansawdd fel Busnes. | • Gweithredu argymhelliad o adolygiad llenyddiaeth o fesurau gwerthuso i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu, gan fesur metrigau perfformiad a chanlyniadau eglur yn rheolaidd sy'n monitro effaith ein gweithgarwch ymgysylltu.<br>• Datblygu dulliau ac adnoddau ar gyfer dull arfer gorau o ymgysylltu ac wedi'i hysbysu gan ymgysylltu mewnol gyda staff i nodi anghenion dysgu a gwybodaeth.<br>• Dylunio a datblygu ar y cyd dull sefydliadol o ddatblygu capasiti a gallu ar gyfer sgiliau ymgysylltu a dadansoddi adborth i hysbysu cynllunio a gwelliant.<br>• Defnyddio gwybodaeth a gesglir i ddatblygu adnodd corfforaethol (e.e. cronfa ddata rhanddeiliaid ganolog) i hwyluso cydgysylltiadau â rhanddeiliaid allanol ac i nodi a llenwi bylchau fel ein bod yn cyrraedd pob sector o boblogaeth Cymru. | Tachwedd 2022<br><br>Ionawr 2023<br><br>Mawrth 2023<br><br>Mawrth 2023 | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | • Datblygu a gweithredu'r hwb Gwella ac Arloesi i gynorthwyo gwelliant ac arloesedd parhaus a chynaliadwy. | Medi 2022 | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG |
| A7 **Is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant**. Nid yw'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant yn cynnwys ei is-grwpiau. Ar hyn o bryd, mae is-grwpiau yn adrodd drwy eithriad gan leihau lefel y sicrwydd y gall y Pwyllgor ei gael bod yr is-grwpiau hyn yn gweithredu'n effeithiol. Dylai'r Ymddiriedolaeth ddiwygio ei chylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a | Cytuno â'r argymhelliad.<br><br>Adolygwyd holl gylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau ac ychwanegwyd eglurhad i nodi manylion yr is-grwpiau a'r grwpiau sicrhau i'r Pwyllgorau.<br><br>Diwygiwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Gwelliant hefyd i gynnwys adrodd amlach gan y ddau grŵp sicrhau (IPC a Diogelu) gan gynyddu o fod yn flynyddol i ddwywaith y flwyddyn. | Cwblhawyd | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Gwelliant i gynnwys ei is-grwpiau a dulliau adrodd. Trwy wneud hynny, dylai sicrhau bod gan y Pwyllgor drosolwg o ehangder y deunyddiau a gwmpesir gan yr is-grwpiau a themâu neu faterion allweddol sy'n deillio o drafodaethau. | Rydym hefyd wedi trefnu ymchwiliadau trwyadl yn y dyfodol i'r ddau faes yn y cynllun gwaith. | | |

# Atodiad 2

## Canfyddiadau'r arolwg staff

**Arddangosyn 3: canfyddiadau'r arolwg staff**

| Datganiadau agwedd | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | | | |
| 1. Gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad | 5 | 2 | | | | 7 |
| 2. Rwy'n fodlon ag ansawdd y gofal rwy'n ei roi i gleifion | 7 | | | | | 7 |
| 3. Mae digon o staff yn fy maes/adran waith i gefnogi darpariaeth gofal diogel ac effeithiol | 2 | 3 | 2 | | | 7 |
| 4. Mae fy amgylchedd gweithio yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 2 | 4 | 1 | | | 7 |

| Datganiadau agwedd | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | | | |
| 5. Rwy'n cael diweddariadau rheolaidd ar adborth cleifion ar gyfer fy maes/adran waith | 3 | 3 | 1 | | | 7 |
| Rheoli pryderon cleifion a staff | | | | | | |
| 6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion | 6 | | 1 | | | 7 |
| 7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff | 4 | 3 | | | | 7 |
| 8. Mae fy sefydliad yn annog staff i adrodd gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau | 5 | 1 | 1 | | | 7 |
| 9. Mae staff sy'n rhan o wall, achos y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad | 5 | 1 | 1 | | | 7 |

| Datganiadau agwedd | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Cyfanswm yr ymatebwyr |
| Rheoli pryderon cleifion a staff | | | | | | |
| 10. Pan fydd gwallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd, mae fy sefydliad yn gweithredu i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto | 4 | 2 | 1 | | | 7 |
| 11. Rydym yn derbyn adborth ar newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau a adroddwyd | 4 | 3 | | | | 7 |
| 12. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel | 5 | 1 | 1 | | | 7 |
| 13. Rwy'n hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon am arferion clinigol anniogel | 4 | 3 | | | | 1 |

| Datganiadau agwedd | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Cyfanswm yr ymatebwyr |
| Gweithio yn fy sefydliad | | | | | | |
| 14. Mae cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff yn effeithiol | 5 | 2 | | | | 7 |
| 15. Mae fy sefydliad yn annog gwaith tîm | 5 | 2 | | | | 7 |
| 16. Mae gen i ddigon o amser i weithio i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol | 1 | 1 | 3 | 1 | 1 | 7 |
| 17. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd a dros dro (e.e. staff asiantaeth/locwm/cronfa/wedi'u hadleoli) yn fy maes/adran waith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 2 | 4 | 1 | | | 7 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.